# YGG Rhosafan

# Datganiad Preifatrwydd

## Sut rydym yn defnyddio gwybodaeth gan rieni neu warcheidwaid

**Er mwyn gallu'ch cefnogi chi'n effeithiol fel rhiant plentyn/plant yn yr ysgol, bydd gofyn i ni gasglu amrywiaeth o ddata personol. Mae'r Datganiad Preifatrwydd hwn yn amlinellu'r data rydym yn ei gasglu a sut caiff ei brosesu gan yr ysgol yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).**

**Darllenwch y datganiad hwn a'r Hysbysiad Preifatrwydd atodedig a'u cadw er gwybodaeth i chi.**

**At ddibenion yr wybodaeth hon, diffinnir yr ysgol fel y rheolwr data yn unol â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2016 ac unrhyw ddeddfwriaeth diogelu data ddilynol.**

## Mae'r categorïau o wybodaeth am rieni rydym yn eu casglu, eu prosesu, eu cadw a'u rhannu'n cynnwys:

- gwybodaeth bersonol (megis enw, cyfeiriad, rhif ffôn)
- diogelu (CCTV)

## Pam rydym yn casglu ac yn defnyddio'r wybodaeth hon

Rydym yn defnyddio data rhieni i ganiatáu i ni rannu'r canlynol â chi:

- cyrhaeddiad disgyblion
- ymddygiad disgyblion
- lles disgyblion
- systemau'r ysgol (megis arlwyo)
- diogelu

## Y sail gyfreithlon sydd gennym ar gyfer prosesu'r wybodaeth hon

Rydym yn sicrhau bod y sail rydym yn ei defnyddio ar gyfer casglu a phrosesu data personol a chategori arbennig yn gyfreithlon o dan Erthygl 6 ac Erthygl 9 y GDPR o 25 Mai 2018.

Gellir cael mwy o wybodaeth am Erthygl 6 ac Erthygl 9 ynghyd â'ch hawliau dan y GDPR o wefan y Comisiynydd Gwybodaeth:-https://ico.org.uk/

## Casglu'r wybodaeth hon

Er bod y mwyafrif o'r wybodaeth rydych yn ei darparu i ni'n orfodol, darperir peth ohoni'n wirfoddol. Er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data, byddwn yn rhoi gwybod i chi a oes angen i chi ddarparu data rhieni penodol i ni neu a oes gennych ddewis yn hyn o beth.

## Storio'r wybodaeth hon

Rydym yn cadw data rhieni am gyhyd ag y bo angen ac yn unol â pholisi cadw'r ysgol (sydd ar gael o'r ysgol a/neu ar wefan yr ysgol).

## Y bobl rydym yn rhannu'r wybodaeth hon â hwy

Rydym yn rhannu'r wybodaeth hon yn rheolaidd â:

- Capita Sims (System Rheoli Gwybodaeth)

Rydym hefyd yn rhannu data ag unrhyw drydydd parti i'ch cefnogi fel rhiant yn ystod eich cyfnod yn yr ysgol:

- Data ar gyfer system heb arian parod (ParentPay)
- Data ar gyfer system arlwyo (Nationwide)
- Data ar gyfer gwasanaeth negeseuon testun (Teachers2parents)

Efallai y bydd achlysuron eraill pan fyddwn yn rhannu data â thrydydd parti:

- Ymweliadau addysgol (cwmnïau teithio/hedfan)
- Cystadlaethau allanol (Rhaglen Ymddiriedolaeth Gymunedol yr Elyrch)

Sylwer, bod rhai o'r trydydd partïon hyn yn berthnasol i chi lle bo'n briodol yn unig. Byddwn yn sicrhau bod Cytundebau Rhannu Data ar waith ar gyfer pob trydydd parti. Byddwn hefyd yn rhoi gwybod i chi am unrhyw drydydd partïon ychwanegol pan fyddant yn codi.

Prosesir yr holl ddata personol rydym yn ei brosesu gan ein staff yn y Deyrnas Unedig. At ddibenion lletya TG a chynnal a chadw, cedwir yr wybodaeth hon ar weinyddion yn yr Undeb Ewropeaidd.

## Ceisio mynediad at eich data personol

Yn unol â deddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl i ofyn i gael gweld yr wybodaeth sydd gennym amdanoch. I wneud cais am eich gwybodaeth bersonol, cysylltwch â Swyddog Diogelu Data'r ysgol.

Mae gennych hefyd yr hawl i:

- wrthwynebu prosesu data personol sy'n debygol o achosi difrod neu niwed neu sydd yn ei achosi
- atal prosesu at ddibenion marchnata uniongyrchol
- gwrthwynebu i wneud penderfyniadau mewn modd awtomataidd

- mewn amgylchiadau penodol, cywiro, rhwystro, dileu neu gael gwared ar ddata personol anghywir; a
- hawlio iawndal am ddifrod a achosir oherwydd torri'r Rheoliad Diogelu Data

Os byddwch am ddiwygio unrhyw wybodaeth, gallwch hysbysu'r ysgol ar unrhyw adeg, a bydd yn ystyried eich cais.

Mae peth gwybodaeth y mae'n rhaid i ni ei chadw yn rhinwedd ein gofynion cyfreithiol ac os ydych yn methu darparu'r wybodaeth hon neu ddarparu gwybodaeth gywir gallech wynebu achosion cyfreithiol.

Os ar unrhyw adeg y credwch fod yr wybodaeth rydym yn ei phrosesu amdanoch chi'n anghywir, gallwch ofyn i weld yr wybodaeth hon ac mae gennych yr hawl i'w chael wedi'i chywiro neu ei dileu. Os ydych am gwyno am sut rydym wedi trafod eich data personol, gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r ysgol a fydd yn ymchwilio i'r mater.

## Mwy o Wybodaeth

Os hoffech drafod unrhyw beth yn y datganiad preifatrwydd hwn neu'r hysbysiad atodedig , cysylltwch â Swyddog Diogelu Data'r ysgol yn:-

YGG Rhosafan
Marine Drive
Sandfields
Port Talbot
SA12 7NN

## YGG Rhosafan

## Hysbysiad Preifatrwydd

1. Wrth ddarparu eich gwybodaeth bersonol i ni rydych drwy hyn yn cydnabod mai'r ysgol yw'r Rheolwr Data ar gyfer yr holl wybodaeth bersonol rydych yn ei darparu i ni neu wedi'i darparu (at ddibenion Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2016 (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018 (DPA)).

2. Bydd y data personol rydym yn ei gasglu gennych yn cael ei ddefnyddio gan yr ysgol (yn unol â'i rhwymedigaeth i gyflawni ei swyddogaethau statudol a busnes amrywiol) i ganiatáu i ni rannu'r canlynol â chi:-

- cyrhaeddiad disgyblion
- ymddygiad disgyblion
- lles disgyblion
- systemau'r ysgol (megis arlwyo)
- diogelu

3. Fel Rheolwr Data, mae gofyn i'r ysgol o dan y GDPR roi gwybod i chi ar ba un o'r "Amodau Prosesu Data" yn Erthygl 6 y GDPR y mae'n dibynnu i brosesu'ch data personol yn gyfreithlon. Yn hyn o beth, sylwer mewn perthynas â'r data a ddarperir gennych chi ar y ffurflen hon ein bod yn dibynnu ar y ddau amod canlynol o Erthygl 6;

i."Mae'r prosesu data yn angenrheidiol ar gyfer cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol y mae'r rheolwr yn destun iddo". (Erthygl 6(c) GDPR).

ii."Mae'r prosesu data yn angenrheidiol ar gyfer perfformio tasg a wneir er budd y cyhoedd neu i arfer awdurdod swyddogol a ymddiriedir i'r rheolwr." (Erthygl 6(e) GDPR).

4. Gallwn rannu eich data personol yn ddiogel â'r trydydd partïon canlynol (h.y. pobl/cyrff/endidau y tu allan i'r ysgol) yn unol â'r trefniadau rhannu data sydd gennym ar waith gyda'r trydydd partïon hynny:-

- Capita Sims (System Rheoli Gwybodaeth)
- ParentPay
- Nationwide

- Teachers2parents
- Cwmnïau Teithio/Hediadau
- Rhaglen Ymddiriedolaeth Gymunedol yr Elyrch

5. Bydd yr wybodaeth bersonol a gesglir gennych gan yr ysgol yn cael ei chadw'n unol â pholisi cadw'r ysgol (sydd ar gael o'r ysgol a/neu ar wefan yr ysgol).

6. Sylwer bod gofyn i ni gasglu data personol penodol dan ofynion statudol ac mewn achosion o'r fath gall eich methiant i roi'r wybodaeth honno i ni arwain at anallu'r ysgol i ddarparu gwasanaeth i chi a/neu gallai eich gwneud yn atebol i achosion cyfreithiol.

7. Byddem yn eich hysbysu bod gennych yr hawl, o dan Erthygl 21 y GDPR, i gyflwyno gwrthwynebiad i'r ysgol ar unrhyw adeg ynghylch y ffaith ein bod yn prosesu'ch data personol at ddibenion cynnal tasg gyhoeddus neu arfer ein hawdurdod swyddogol.

8. Ni fydd yr ysgol yn trosglwyddo unrhyw elfen o'ch data personol y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd. Bydd holl waith prosesu eich data personol gennym ni yn cael ei wneud yn y Deyrnas Unedig neu yng ngwledydd eraill yr Undeb Ewropeaidd.

9. Ni fydd yr ysgol yn defnyddio'ch data personol at ddibenion gwneud penderfyniadau awtomataidd.

10. Sylwer, o dan y GDPR, y rhoddir yr hawliau canlynol i unigolion mewn perthynas â'u data personol:
    i. Hawl i gael mynediad at eu data personol a gedwir gan reolwr data.
    ii. Yr hawl i gywiro data gwallus gan reolwr data.
    iii. Yr hawl i ddileu eu data (mewn rhai amgylchiadau cyfyngedig).
    iv. Yr hawl i gyfyngu ar brosesu eu data gan reolwr data (mewn rhai amgylchiadau cyfyngedig).
    v. Yr hawl i wrthwynebu i'w data gael ei ddefnyddio ar gyfer marchnata uniongyrchol.
    vi. Yr hawl i gludadwyedd data (h.y. trosglwyddo data'n electronig i reolwr data arall).
    Gellir cael mwy o wybodaeth am yr holl hawliau uchod ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth yn www.scg.org.uk: www.ico.org.uk.

11. Os bydd gennych unrhyw ymholiadau ynghylch ein defnydd o'ch data personol, rydych yn dymuno cael mynediad at yr un data neu rydych am wneud cwyn am brosesu'ch data personol, ysgrifennwch at Swyddog Diogelu Data'r ysgol yn y cyfeiriad canlynol:
    YGG Rhosafan
    Marine Drive
    Sandfields
    Port Talbot
    SA12 7NN

12. Sylwer os ydych yn cyflwyno cais neu gŵyn i Swyddog Diogelu Data'r ysgol ac rydych yn anfodlon ar ymateb y cyngor, mae hawl gennych i gwyno'n uniongyrchol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Gellir dod o hyd i fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd a mwy o wybodaeth am eich hawliau ar wefan y comisiynydd yn www.ico.org.uk.